

Pobl wrth galon iechyd a gofal cymdeithasol

Persbectif ein Cadeirydd:

Yr Athro Medwin Hughes ar weledigaeth
sy'n person-ganolog ar gyfer iechyd a gofal
cymdeithasol yng Nghymru



Fformatau hygyrch

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni drwy ymholiadau@llaiscymru.org

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa.

Cyflwyniad

**Yr Athro
Medwin Hughes
CBE DL**

Cadeirydd Llais



Mae iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cyffwrdd â bywyd pawb ar ryw adeg.

Ac eto ers gormod o amser, mae llawer o bobl wedi wynebu gwasanaethau sy'n teimlo'n anodd eu cyrchu, yn ddatgysylltiedig, neu'n anghyson. Mae staff a sefydliadau'n gweithio dan bwysau enfawr, ac yn aml mae pobl yn teimlo nad oes ganddynt lawer o ddylanwad dros sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Sefydlwyd Llais i newid hynny. Mae ei genhadaeth yn syml ond yn hanfodol: sicrhau bod profiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu gwrandio arnyn nhw, eu deall, a'u defnyddio i arwain gwelliannau go iawn. Mae Llais wedi casglu mewnwelediad, wedi cyhoeddi egwyddorion, ac wedi dylanwadu ar bolisi mewn ffyrdd sy'n rhoi pobl wrth wraidd diwygio systemau.

Mae ein hadroddiadau cyhoeddedig *Blaenoriaethau'r Bobl a'r Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Garem* yn nodi cyflwr presennol iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru o safbwynt profiad y cyhoedd ac yn archwilio sut y gall blaenoriaethau pobl arwain newid, ac yn tynnu sylw at yr hyn sy'n dod nesaf wrth i'r wlad symud tuag at Senedd newydd a'r cam nesaf o ddiwygio.

Naratif o newid

Mae stori iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gymhleth. Yn aml, mae pobl yn dod ar draws gwasanaethau tameidiog, yn wynebu arosiadau hir, ac yn ei chael hi'n anodd llywio system sy'n teimlo'n anghyson o un lle i'r llall. Rôl Llais yw sicrhau bod y profiadau hyn yn cael eu clywed a'u hadlewyrchu mewn penderfyniadau, gan greu naratif o newid sy'n seiliedig ar yr hyn y mae pobl yn ei brofi mewn gwirionedd yn hytrach na'r hyn y mae sefydliadau'n ei gymryd yn ganiataol.

Mae cyhoeddi *Blaenoriaethau'r Bobl* ac *Egwyddorion y Bobl* yn garreg filltir. Mae'r wyth egwyddor hyn yn seiliedig ar brofiadau dinasyddion ledled Cymru ac yn tynnu sylw at yr hyn sydd bwysicaf: dylai gofal fod yn hygyrch, yn barchus, wedi'i gyfleu'n glir, yn gydgyssylltiedig, yn amserol, yn ystyriol o'r person cyfan, yn deg, ac yn gefnogol i annibyniaeth. Yr hyn sy'n gwneud yr egwyddorion hyn mor bwerus yw eu bod yn gyson ar draws cymunedau, gan ddangos bod y cyhoedd yn rhannu disgwyliadau cyffredin o ofal.





Mae'r naratif hwn o newid yn fwriadol ac yn adeiladol. Nid yw Llais yn canolbwyntio ar feirniadaeth na beio. Yn hytrach, mae'n cyflwyno profiadau fel tystiolaeth a all arwain gwelliannau ymarferol. Drwy gydbwyso anghenion dinasyddion â dealltwriaeth o bwysau staff, mae Llais yn sicrhau bod mewnwelediadau yn gredadwy, yn realistig, ac yn ymarferol.

Mae Llais yn gweithredu'n genedlaethol, gan gasglu profiadau o bob cwr o Gymru i nodi tueddiadau nad ydynt o bosibl yn weladwy'n lleol. Drwy greu darlun clir o'r system o safbwynt y cyhoedd, mae'n tynnu sylw at ble mae gwasanaethau'n llwyddo a ble mae angen diwygio. Y naratif hwn yw'r sylfaen ar gyfer diwygio, gan osod y cyfeiriad ar gyfer newidiadau sy'n wirioneddol gwella profiad pobl o iechedd a gofal cymdeithasol.

Wrth i Gymru symud tuag at Senedd newydd, bydd y naratif hwn yn hanfodol. Mae'n darparu parhad, pwynt cyfeirio a rennir, a fframwaith sy'n canolbwyntio ar bobl i arwain cam nesaf y diwygiadau. Drwy ddechrau gyda phrofiad byw, mae Llais yn sicrhau bod newid wedi'i seilio ar realiti, yn berthnasol ac yn ystyrlon.

Grymuso ac effaith

Mae grymuso wrth wraidd gwaith Llais. Mae pobl Cymru yn teimlo'n rymus pan fydd eu profiadau'n dylanwadu ar benderfyniadau ac yn arwain at newid gweladwy. Mae Egwyddorion y Bobl yn ganolog i'r broses hon. Nid ydynt yn cyflwyno cwynion na gofynion unigol; maent yn darparu fframwaith a rennir, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n llywio gwneud penderfyniadau ac yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer gwasanaethau.

Mae annibyniaeth yn elfen hollbwysig. Mae Llais yn gweithredu'n annibynnol o'r llywodraeth a sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol, gan ganiatáu i bobl rannu eu profiadau'n onest. Gall llunwyr polisi ac arweinwyr gwasanaethau ymddiried bod mewnwelediadau'n gywir ac yn gynrychioliadol, tra gall dinasyddion fod yn hyderus bod eu lleisiau'n cael eu parchu.

Mae effaith y dull hwn yn glir. Ers cyhoeddi Blaenoriaethau'r Bobl, mae termau fel mynediad, urddas, cyfathrebu a gofal cydgysylltiedig yn cael eu hystyried yn allweddol ar gyfer cynlluniau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol ac maent wedi dod yn ganolog mewn dadleuon cyhoeddus a pholisi. Mae Llais yn helpu i drosi llais dinasyddion yn fewnwelediad ymarferol, gan roi arweiniad ymarferol i wneuthurwyr penderfyniadau ar ddiwygio. Yn yr un modd, mae cynhwysiant yn rhan ymarferol o rymuso.



Mae Llais yn canolbwyntio ar bobl y mae eu lleisiau'n aml yn cael eu hanwybyddu, fel y rhai sy'n wynebu allgáu digidol, rhwystrau iaith, anableddau, neu anfantais gymdeithasol. Drwy sicrhau cyfranogiad eang, mae grymuso yn dod yn ddilys ac yn deg, heb fod yn gyfyngedig i'r rhai sydd eisoes yn hyderus wrth lywio'r system.

Mae dealltwriaeth gydfuddiannol hefyd yn hanfodol. Mae pobl yn cydnabod y pwysau y mae staff a sefydliadau yn eu hwynebu, ac mae Llais yn hwyluso deialog onest sy'n cydbwysu disgwyliadau â realaeth. Felly mae grymuso yn gyfrifoldeb a rennir: mae pobl a chymunedau yn dylanwadu ar newid wrth ddeall cyfyngiadau system. Mae effaith y gwaith hwn yn hirdymor ac yn ddiwylliannol. Mae profiad y cyhoedd yn dechrau llywio polisi, darparu gwasanaethau a meddwl sefydliadol. Mae ymddiriedaeth yn tyfu pan fydd pobl yn gweld eu cyfraniadau'n cael eu hadlewyrchu mewn blaenoriaethau a phenderfyniadau, gan greu cylch cadarnhaol sy'n cryfhau ymgysylltiad ac ymatebolrwydd system.



Gwrando'n dda

Mae gwrando'n dda yn fwy na chlywed geiriau – mae'n golygu deall, dadansoddi a gweithredu ar brofiadau cyhoeddus. Mae Llais yn blaenoriaethu hygyrchedd, gan gynnig sawl ffordd o ymgysylltu: ar-lein, yn bersonol, dros y ffôn, a thrwy bartneriaid lleol. Ni adawir unrhyw lais heb ei glywed, ac mae pob stori yn cyfrannu at ddealltwriaeth ehangach o'r system.

Mae dyfnder gwrando yn bwysig. Nid yw Llais yn casglu straeon yn unig; mae'n nodi patrymau a phrofiadau a rennir a all arwain polisi cenedlaethol. Mae profiadau unigol yn cael eu trawsnewid yn fewnwelediad strwythuredig y gall gwneuthurwyr penderfyniadau ei ddefnyddio i lywio strategaeth, dyrannu adnoddau a gwella gwasanaethau. Mae uniondeb yn hanfodol. Rhaid i bobl Cymru ymddiried bod eu profiadau'n cael eu hadrodd yn gywir, a rhaid i lunwyr polisi allu dibynnu ar y mewnwelediadau hyn heb boeni am or-ddweud na rhagfarn.



Mae Llais yn darparu'r hygredd hwn, gan weithredu fel cyfryngwr dibynadwy rhwng y cyhoedd a'r system.

Mae gwrando'n dda hefyd yn gofyn am ymatebolrwydd. Mae Llais yn dangos i gyfranogwyr sut mae eu hadborth yn llywio blaenoriaethau, egwyddorion a phenderfyniadau. Mae pobl yn gweld bod gan ymgysylltu canlyniadau, gan atgyfnerthu ymddiriedaeth ac annog cyfranogiad parhaus. Mae gwrando rhagweithiol yr un mor bwysig. Mae Llais yn nodi heriau sy'n dod i'r amlwg cyn iddynt ddod yn argyfyngau, gan ganiatáu i wasanaethau weithredu'n gynnar ac atal problemau yn hytrach nag ymateb iddynt. Mae'r dull rhagweld hwn yn gwneud y system yn fwy diogel ac yn fwy ymatebol.

Yn olaf, mae gwrando'n dda yn dylanwadu ar ddiwylliant. Drwy fodelu ymgysylltiad gofalus, cynhwysol ac empathig, mae Llais yn annog sefydliadau i drin mewnbwn y cyhoedd fel rhan ganolog, barhaus o wneud penderfyniadau, yn hytrach nag ymarfer ymgynghori untro.



Cyflawni newid

Cyflawni newid yw nod eithaf Llais. Dim ond os ydynt yn arwain at welliannau pendant mewn gwasanaethau y mae mewnwelediad ac egwyddorion yn ystyrlon. Mae Egwyddorion y Bobl yn darparu fframwaith ar gyfer disgwyliadau cyson: rhaid i ofal fod yn hygyrch, yn barchus, yn gydgysylltiedig, yn amserol, ac yn grymuso.

Mae Llais yn gweithredu fel pont rhwng pobl, cymunedau a'r system. Drwy gyfuno profiadau lleol i greu mewnwelediad cenedlaethol, mae'n helpu cyrff iechyd a darparwyr gofal cymdeithasol i ddeall ble mae angen gwelliannau a'r ffordd orau o'u cyflawni. Mae'r dylanwad hwn yn gynnil ond yn bwerus: mae'n llywio diwygio heb ddisodli rolau llunwyr polisi nag arweinwyr gwasanaethau.

Mae atebolrwydd yn ganolog. Mae Llais yn sicrhau bod profiadau'r cyhoedd yn weladwy ac yn dylanwadu ar benderfyniadau, gan gynnwys eu lleisiau mewn cynllunio a gwerthuso. Mae newid hefyd yn ddiwylliannol: mae gwelliannau'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau feddwl yn gyfannol, cydweithio'n effeithiol, a mabwysiadu meddylfryd sy'n canolbwyntio ar bobl ar draws y gweithlu. Mae newid cynaliadwy yn adeiladu dros amser. Mae pob mewnwelediad a gesglir yn cryfhau'r sylfaen dystiolaeth, yn cefnogi disgwyliadau cyffredin, ac yn sicrhau bod diwygiadau'n parhau i fod yn gysylltiedig ag anghenion pobl a chymunedau. Mae cyflawni newid hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bobl weld yr effaith, gan atgyfnerthu ymddiriedaeth a dangos bod ymgysylltiad yn arwain at ganlyniadau ymarferol. Drwy'r dull hwn, mae Llais yn troi gwrando'n gweithredu, gan sicrhau bod llais y cyhoedd yn sbarduno diwygio ac yn llunio system sy'n deg, yn ymatebol, ac yn gysylltiedig.



LLAIS



Eich llais mewn ieuchyd | Your voice in a gofal cymdeithasol | and so on

EICH DWEUD
R SAY



We Need:

- Transport that is safe, reliable and accessible
- Easy read timetables
- More flexible transport for people with health conditions & learning disabilities (and everyone else)

"If you can't access a service easily, it might as well not exist"

Our Barriers:

- Existing transport options not reliable
- Timetables are confusing
- Taxis expensive
- our member to choose between going places and eating/paying bills

Our theme:

Better Transport!

Our idea:

- Third Sector ride Hailing app (like uber)
- Easy read transport info
- More collaboration between local authorities + Trans

Beth mae pobl Cymru yn ei ddisgwyl nesaf

Adeiladu system gyson ac integredig

Mae pobl Cymru wedi gwneud eu disgwyliadau'n glir: maen nhw eisiau system sy'n gweithio, yn eu trin â pharch, ac yn gwella eu profiadau dyddiol. Mae pobl bellach yn disgwyl gweithredu – yn weladwy, yn ymarferol, ac yn gyson ledled y wlad.

Yn gyntaf, mae pobl eisiau mynediad sy'n gweithio i bawb, heb rwystrau a achosir gan ddaearyddiaeth, iaith, gallu digidol, nac amgylchiadau personol. Ni ddylai aros olygu cael eich anghofio, a rhaid i gefnogaeth fod yn hyblyg i ddiwallu anghenion unigol. Rhaid i gyrff iechyd a gofal cymdeithasol sicrhau mynediad teg, fel bod anghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu'n gyson waeth beth fo'r lleoliad. Mae pobl hefyd yn disgwyl gofal sy'n eu trin ag urddas a pharch. Rhaid cefnogi a grymuso staff i ddarparu gofal tosturiol a chyson ar draws pob sefydliad. Rhaid i fyrddau iechyd ac arweinwyr awdurdodau lleol sicrhau bod hyfforddiant staff, diwylliant ac arweinyddiaeth yn galluogi urddas i gael ei wreiddio ym mhob rhyngweithio.





Mae cyfathrebu clir a gonest yn flaenoriaeth. Mae pobl yn disgwyl cael gwybod mewn iaith glir am eu gofal, gan gynnwys oediadau neu newidiadau. Ar hyn o bryd, mae cyfathrebu'n amrywio ar draws cyrff, ac mae gwaith Llais yn tynnu sylw at yr angen am gysondeb i feithrin ymddiriedaeth a hyder.

Mae pobl eisiau gofal cydgysylltiedig. Rhaid i gyrff y GIG ac awdurdodau lleol ar wahân gydweithio er mwyn i wasanaethau fod yn ddi-dor. Ni ddylai pobl orfod ailadrodd eu stori na chydlyn gofal eu hunain. Mae integreiddio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol ar gyfer parhad, diogelwch ac effeithlonrwydd. Mae gofal a chefnogaeth amserol wrth aros yn hanfodol. Mae pobl eisiau sicrwydd ac arweiniad yn ystod oedi, ac mae angen arferion cyson ar draws cyrff i atal bylchau neu anghydraddoldeb.

Mae'r cyhoedd hefyd yn disgwyl gofal sy'n cydnabod y person cyfan, gan ystyried anghenion corfforol, meddyliol a chymdeithasol. Mae cyflawni hyn yn gofyn am gydweithio ar draws cyrff a gwasanaethau, gan sicrhau dull cyfannol a chydlynol o ofal. Nid yw tegwch a chynhwysiant yn agored i drafodaeth. Mae pobl yn disgwyl i wasanaethau gael gwared ar rwystrau sy'n gysylltiedig ag iaith, diwylliant, anabledd a mynediad digidol, gyda safonau cyson ledled Cymru. Rhaid i'r GIG ac awdurdodau lleol gydweithio i ddatblygu a mabwysiadu dulliau cyson o sicrhau cydraddoldeb, rhannu arferion gorau, a gweithredu polisiau cynhwysol.

Yn olaf, mae pobl yn disgwyl gofal sy'n hyrwyddo annibyniaeth, yn cefnogi dewis, urddas, a chysylltiad cymunedol, gan ddarparu cefnogaeth ystyrlon i ofalwyr di-dâl. Rhaid i gyrff gydlynw i sicrhau bod y gefnogaeth hon yn gyson ac yn gynaliadwy.

Mae'r goblygiadau i gyrff y GIG ac awdurdodau lleol ledled Cymru yn glir: mae blaenoriaethau pobl yn galw am fwy o gysondeb, safonau a rennir, a chydweithio agosach. Bydd angen i gyrff feddwl a gweithredu fel system gysylltiedig, gan alinio strategaethau a gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gofal yn deg ac yn integredig. Mae integreiddio yn weithredol, yn ddiwylliannol, ac yn strategol, gan ei gwneud yn ofynnol i'r gweithlu gael ei aliniadu ar y cyd a chynllunio cydlynol.

Yn fyr, mae pobl Cymru yn gofyn am newid trawsnewidiol. Maen nhw eisiau system sy'n hygyrch, yn barchus, yn gydgysylltiedig, yn deg, ac yn grymuso, wedi'i chyflwyno'n gyson ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd Llais yn parhau i sicrhau bod mewnwelediad cyhoeddus yn sbarduno diwygio, gan gefnogi system iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru sy'n gwasanaethu'r bobl yn wirioneddol.



Symud ymlaen yn hyderus

Mae Cymru ar drobwynt. Mae lleisiau'r bobl, a gofnodir drwy waith Llais ac a fynegir yn Egwyddorion a Blaenoriaethau'r Bobl, yn darparu canllaw clir ar gyfer diwygio. Mae miloedd o leisiau Cymru wedi dweud wrthym beth sydd bwysicaf: gofal sy'n hygyrch, yn barchus, yn gydgysylltiedig, yn amserol, yn deg, ac yn grymuso. Nawr, yr her, a'r cyfle, yw troi'r blaenoriaethau hyn yn weithredu ar draws pob rhan o'r system iechyd a gofal cymdeithasol.

Gall newid ar y raddfa hon deimlo'n frawychus, ond mae'n gyraeddadwy. Mae'r egwyddorion a amlinellwyd gan leisiau unigol yng Nghymru yn rhoi eglurder a ffocws inni. Maent yn darparu safonau a rennir y gall sefydliadau, staff ac arweinwyr gyd-fynd â nhw, gan sicrhau nad yw gwelliant ar hap nac yn dameidiog, ond yn gydlynol ac yn gyson. Drwy gadw'r cyhoedd yn y canol, rydym yn lleihau ansicrwydd, yn cryfhau ymddiriedaeth, ac yn gwneud diwygiadau'n fwy tebygol o lwyddo.

Mae gan gyrff iechyd a gofal cymdeithasol arbenigedd ac ymroddiad rhyfeddol eisoes. Yr hyn y mae gwaith Llais yn ei amlygu yw bod rhaid cyfuno'r arbenigedd hwn â phrofiad byw.



Drwy integreiddio realiti profiadau dyddiol pobl â gwasanaethau i gynllunio, dylunio a darparu, gall Cymru greu system sy'n rhagorol yn dechnegol ac yn wirioneddol ymatebol i'r bobl y mae'n eu gwasanaethu. Mae'r dull hwn yn meithrin hyder yn y system, nid yn unig i bobl, ond i'r rhai sy'n gweithio ynddi.

Mae hyder hefyd yn dod o eglurder. Mae Egwyddorion y Bobl yn gweithredu fel map ffordd ar gyfer newid. Maent yn dangos sut olwg sydd ar ofal da yn ymarferol ac yn darparu meincnodau y gellir mesur cynnydd yn eu herbyn. Gall arweinwyr gynllunio gyda sicrwydd, gan wybod y dylid profi pob penderfyniad yn erbyn yr egwyddorion hyn: A yw'n gwella mynediad? A yw'n trin pobl ag urddas? A yw'n dod â gwasanaethau at ei gilydd? A yw'n hyrwyddo annibyniaeth a thegwch?

Yn yr un modd, mae hyder yn dod o gydweithio. Ni all unrhyw sefydliad, bwrdd nac awdurdod unigol gyflawni'r newidiadau hyn ar ei ben ei hun. Mae angen i gyrff GIG ar wahân Cymru ac awdurdodau lleol adeiladu cynghreiriau hyd yn oed yn fwy a gweithio mewn partneriaeth, gan rannu dysgu, alinio safonau, a chreu system sydd wedi'i hintegreiddio drwy ddylunio. Mae gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol i'w chwarae wrth hwyluso newid system o'r fath, rôl Llais yw sicrhau bod lleisiau pobl yn parhau i fod yn ganolog yn y sgysiau hyn, gan arwain cydweithio a chadw'r ffocws ar yr hyn sydd bwysicaf i bobl.

Yn olaf, mae hyder yn dod o ymrwymiad i weithredu. Dim ond os ydynt yn arwain at ganlyniadau y mae gwrando, egwyddorion a mewnwleidiad yn ystyrlon. Mae pobl Cymru wedi cynnig eu gweledigaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ledled y wlad, ac mae eu blaenoriaethau'n darparu cynllun clir ar gyfer diwygio. Mae gan Gymru'r offer, yr arweinyddiaeth, a'r mandad cyhoeddus i drawsnewid ei system iechyd a gofal cymdeithasol. Drwy weithredu'n bendant, adeiladu ar safonau cyffredin, a gwreiddio llais y cyhoedd ar bob lefel, gall Cymru greu system sy'n decach, yn fwy cysylltiedig, ac yn wirioneddol yn canolbwyntio ar bobl. Bydd Llais yn parhau i sicrhau bod y lleisiau hyn yn arwain newid, gan gefnogi gwasanaethau i symud ymlaen gyda sicrwydd a phwrrpas, gan greu system iechyd a gofal cymdeithasol sy'n ymatebol, yn deg, ac wedi'i hadeiladu ar gyfer y bobl y mae'n eu gwasanaethu.



Ymunwch â'r sgwrs



LinkedIn



@LlaisCymruWales

Llais-Cymru

@Llais_Cymru

#EgwyddorionyBobl

Os hoffech roi adborth i ni ar y cyhoeddiad hwn neu os hoffech dderbyn y wybodaeth hon mewn fformat neu iaith arall, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg. Os ysgrifennwch atom yn y Gymraeg, byddwn yn ateb yn y Gymraeg.

Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

Llais

Adeiladau'r Goron,

Parc Cathays,

Rhodfa'r Brenin Edward VII,

Caerdydd.

CF10 3NQ



Eich llais mewn iechyd | Your voice in health
a gofal cymdeithasol | and social care

02920 235 558

ymholiadau@llaiscymru.org

www.llaiscymru.org